# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 22 Ionawr 2003

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg
3 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor
5 Cwestiynau i'r Trefnydd

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg

### Amgueddfa Genedlaethol Hanes Llafur yng Nghymru

**C8 Ann Jones:** A yw'r Gweinidog yn cefnogi camau i sefydlu amgueddfa genedlaethol hanes llafur yng Nghymru? (OAQ21782)

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg (Jenny Randerson):** Y mae Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru yn bwriadu cynnwys hanes llafur mewn dau o'i ddatblygiadau newydd yn Amgueddfa Diwydiant Gwlân Cymru ac Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe. Adlewyrchwyd y pwnc eisoes yng nghasgliadau sawl safle presennol, megis y Pwll Mawr ac Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis.

### Arddangos Celf yn Gyhoeddus

**C9 John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y datblygiadau o ran cynyddu'r casgliadau celf a arddangosir yn gyhoeddus yng Nghymru? (OAQ21785)

**Jenny Randerson:** Cyflwynodd Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru gasgliadau cychwynnol ei ymgynghoriad ar arddangos ei gasgliadau celf yn y dyfodol i'r Pwyllgor Diwylliant ar 23 Hydref 2002.

Edrychaf ymlaen at dderbyn adroddiad terfynol yr amgueddfa. Yn y cyfamser, bydd fy mholisi o ddarparu cyllid i wella cyfleusterau amgueddfeydd ac orielau lleol, detholedig, yn creu cyfleoedd i arddangos eitemau o'r casgliadau cenedlaethol yn lleol.

### Theatrau Gradd 1 Cymru

**C10 Alison Halford:** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau bod rhoi rhagor o gyllid i theatrau gradd 1 Cymru yn hanfodol bwysig er mwyn diogelu safon ardderchog theatr yng Nghymru? (OAQ21846)

**Jenny Randerson:** Yr oeddwn wrth fy modd gyda'r 15 y cant o gynnydd yng nghyllid refeniw Clwyd Theatr Cymru, sy'n cynyddu ei refeniw blynyddol gan Gyngor Celfyddydau Cymru i £1.3 miliwn at 2002-03. Er mwyn datblygu ymhellach y rhwydwaith o leoedd i gynnal theatr ar gylchdaith, mae cyngor y celfyddydau hefyd wedi mabwysiadu Theatr y Grand, Abertawe; theatr y Pafiliwn, Rhyl; Theatr Gogledd Cymru, Llandudno a Neuadd Dewi Sant, Caerdydd fel cleientau refeniw newydd gyda chyfanswm dyraniad o £215,000.

### Annog Pobl Ifanc i Gymryd Rhan yn y Celfyddydau

**C11 Eleanor Burnham:** Beth sy'n cael ei wneud i annog pobl ifanc i gymryd rhan yn y celfyddydau? (OAQ21854)

**Jenny Randerson:** Cydnabu fy strategaeth 'Creative Future: Cymru Greadigol' bwysigrwydd hanfodol annog pobl ifanc; neilltuwyd ei gynllun gweithredu, 'Gosod y Sylfeini', ar gyfer pobl ifanc.

Gofynnais i gyngor y celfyddydau sefydlu cronfa gelfyddydau ieuenctid. Enw'r gronfa, fydd werth mwy na £1.7 miliwn y flwyddyn, fydd 'Cefnogi Creadigrwydd' ac fe'i lansir ym mis Chwefror. Yn ogystal, cyhoeddais fis diwethaf y bydd bron i £1.2 miliwn ar gael dros dair blynedd er mwyn datblygu theatr mewn addysg. Rhoddwyd grantiau o £500,000 gan y loteri eleni ar gyfer cerddoriaeth a phobl ifanc.

**Grantiau ar gyfer y Gymraeg**

**C12 Peter Rogers:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch gweithredu, ledled Cymru, y rhaglen grantiau newydd ar gyfer y Gymraeg? (OAQ21844)

**Jenny Randerson:** Yr oeddwn wrth fy modd yn ddiweddar i gyhoeddi £16 miliwn ychwanegol dros y tair blynedd nesaf i Fwrdd yr Iaith Gymraeg gan ddechrau ar ddechrau'r flwyddyn ariannol nesaf. Bydd yr arian yn galluogi i'r bwrdd a'i bartneriaid gydweithio er mwyn sicrhau llwyddiant 'Iaith Pawb', cynllun gweithredu cenedlaethol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Cymru ddwyieithog. Bydd yr arian ychwanegol yn galluogi i'r bwrdd dargedu nifer o feysydd meigs mentrau cymunedol, data ac ymchwil a hyrwyddo'r iaith o fewn y sectorau preifat a gwirfoddol. Byddaf yn adrodd yn flynyddol ar weithrediad y cynllun cenedlaethol.

**Canolfan Gelf Newydd yng Nghasnewydd**

**C13 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cynnydd o ran codi canolfan gelf newydd yng Nghasnewydd? (OAQ21776)

**Jenny Randerson:** Yn anochel, bu i'r darganfyddiad o long ganoloesol ar safle theatr a chanolfan celfyddydau Casnewydd wrth gloddio pwll y gerddorfa ym Mehefin 2002 amharu rhywfaint ar gynllun gwaith y prosiect.

Bu i Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg-Gwent orffen symud y llong a chwblhau ei astudiaeth o'r safle ar 20 Rhagfyr 2002. Bydd y theatr a chanolfan y celfyddydau, gan gynnwys islawr newydd i arddangos y llong, bellach yn cael eu cwblhau erbyn Hydref 2004, sef estyniad o saith mis i'r amserlen wreiddiol.

**Archifdy Cyhoeddus i Gymru**

**C14 Nick Bourne:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch sefydlu archifdy cyhoeddus i Gymru yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru? (OAQ21828)

**Jenny Randerson:** Codwyd y mater o dro i dro mewn trafodaethau â'r llyfrgell genedlaethol. Byddai dichonadwyedd sefydlu swyddfa gofnodion gyhoeddus ar wahân i Gymru yn gofyn ystyriaeth fanwl oherwydd cymhlethdodau cysylltiedig, ac mae'n debygol y byddai iddo oblygiadau ariannol sylweddol. Yr wyf wedi sicrhau'r llyfrgell genedlaethol y bydd posibilrwydd storio cofnodion cyhoeddus Cymru yn y llyfrgell yn opsiwn i'w ystyried fel ran o unrhyw adolygiad cyffredinol o'n polisi i'r dyfodol. Mae'r staff yn Kew yn parhau i ddelio'n broffesiynol â chofnodion cyhoeddus Cymru, a byddant yn parhau i wneud hynny cyhyd ag y bo angen.

**Pwysigrwydd Chwaraeon yn yr Ysgol**

**C15 Peter Rogers:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar bwysigrwydd chwaraeon yn yr ysgol? (OAQ21843)

**Jenny Randerson:** Cydnebydd Llywodraeth Cynulliad Cymru bod chwaraeon ac addysg gorfforol mewn ysgolion yn hanfodol ar gyfer datblygiad pobl ifanc. Dyna paham y cyhoeddodd y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes arian sylweddol newydd i atgyfnerthu chwaraeon mewn ysgolion a phaham y cynlluniwyd cynifer o raglenni Cyngor Chwaraeon Cymru i greu cysylltiad rhwng plant ysgol a'r gymuned chwaraeon ehangach i gryfhau'r seilwaith chwaraeon ymhellach.

## Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor

### Hyder mewn Ffermio yng Nghymru

**C7 John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar lefel yr hyder mewn ffermio yng Nghymru? (OAQ21768)

**Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor (Michael German):** Y mae ffermio yng Nghymru, fel unrhyw fusnes, yn parhau i wynebu sawl sialens wrth inni ddechrau blwyddyn newydd. Gallwn fod yn optimistig bod hyder yn raddol ddychwelyd i'r diwydiant wedi anhawsterau nodedig y blynyddoedd diweddar. Cadarnheir hyn gan arolwg diweddar Undeb Amaethwyr Cymru, sy'n nodi bod hyder cymuned ffermio Cymru wedi cynyddu gryn dipyn o'i gymharu â blwyddyn yn ôl—48 y cant o'i gymharu â 32 y cant 12 mis yn ôl.

### Dathlu Dydd Gŵyl Dewi Dramor

**C8 Owen John Thomas:** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i annog dathlu Dydd Gŵyl Dewi dramor? (OAQ21763)

**Michael German:** Y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydweithio'n agos â'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad i godi proffil Dydd Gŵyl Dewi. Gofynnwyd i bob llysgenhadaeth ystyried ffyrdd o nodi Dydd Gŵyl Dewi. Darparwyd adnoddau hyrwyddol am Gymru iddynt oll a bu i nifer ohonynt ofyn am ddeunydd ychwanegol.

### Cnydau a Addaswyd yn Enetig

**C9 Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddweud a oedd yn ymwybodol o gynnwys y papur a gyhoeddwyd gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Ymgynghorol ar Ollyngiadau i'r Amgylchedd ar 24 Rhagfyr 2002, 'Monitoring Large Scale Releases of Genetically Modified Crops', cyn trafodaeth y Cynulliad am organebau a addaswyd yn enetig, ar 18 Rhagfyr 2002? (OAQ21800)

**Michael German:** Nid oeddwn yn ymwybodol o'r adroddiad hwn pan drafodwyd y Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Cymru) 2002 ar 18 Rhagfyr.

### Y Diciâu mewn Gwartheg yng Nghymru

**C10 Jocelyn Davies:** Pa fesurau newydd wnaiff y Gweinidog eu cyflwyno i rwystro'r diciâu mewn gwartheg rhag ymledu yng Nghymru? (OAQ21804)

**Michael German:** Cyhoeddwyd mesurau ychwanegol ym mhecyn yr hydref, gan gynnwys astudiaeth beilot i asesu gwerth prawf gwaed interfferon gamma fel prawf ychwanegol a fyddai'n helpu i glirio'r haint yn gynt. Yn ogystal, cynyddwyd y rheolaeth ar yrroedd a fu'n disgwyl ers tro am brofion diciâu a chymerwyd camau i gynyddu ymwybyddiaeth o beryglon clefydau.

## Y Sector Amaethyddol yng Nghymru

**C11 Elin Jones:** Pa fesurau mae'r Gweinidog am eu cyflwyno yn y dyfodol er mwyn hybu hyder yn y sector amaethyddol yng Nghymru? (OAQ21762) [W]

**Michael German:** Mae 'Ffermio i'r Dyfodol' yn nodi amcanion Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer cefnogi ffermydd teuluol ac, yn sail i hyn, ceir ystod eang o raglenni a strategaethau i helpu i greu dyfodol cynaliadwy ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru. Yn ddiweddar, cyhoeddais ddyraniad ychwanegol o £22 miliwn i'r gyllideb amaethyddiaeth a materion gwledig yn 2003-04, sef cynnydd o bron 10 y cant er mwyn cefnogi rhaglen waith y strategaeth.

## Methiant Systemau Integredig Gweinyddu a Rheoli

**C12 Peter Rogers:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr effaith ar ffermwyr sy'n dal i ddisgwyl am eu grantiau oherwydd methiant systemau integredig gweinyddu a rheoli? (OAQ21851)

**Michael German:** Nid yw'r system integredig gweinyddu a rheoli newydd wedi methu. Bu oedi wrth gyflwyno systemau cyfrifiadurol newydd ond mae'r taliadau wedi ailddechrau. Nid yw'n bosibl imi fesur yr effaith ar y ffermwyr sy'n disgwyl taliadau o dan y cynllun polisi amaethyddol cyffredin heb wybod amgylchiadau unigolion. Mewn achosion lle y dangosodd ffermwyr galedi ariannol, bu i swyddogion wneud taliadau â llaw.

## Oedi Taliadau'r Cynllun Premiwm Arbennig Eidion

**C13 Alun Pugh:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr oedi diweddaraf mewn cysylltiad â'r cynllun premiwm arbennig eidion? (OAQ21771)

**Michael German:** Dechreuodd taliadau'r cynllun premiwm arbennig eidion cyn diwedd Rhagfyr ac maent yn parhau. Fodd bynnag, rhaid cwblhau dilysu drwy'r IACS a chroeswiriadau lleoliad yn y system olrhain gwartheg cyn y gellir talu ceisiadau unigol. Hefyd, rhaid cwblhau cyfnodau cadw unigol cyn y bydd unrhyw daliad yn ddyledus. Dyddiad terfyn y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer gwneud taliadau premiwm arbennig eidion yw 30 Mehefin 2003.

## Lles ac Iechyd Anifeiliaid yng Nghymru

**C14 Christine Chapman:** Pa fesurau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i fynd i'r afael â lles ac iechyd anifeiliaid yng Nghymru? (OAQ21816)

**Michael German:** Cyhoeddais yn ddiweddar ddogfen ymgynghori ar ddatblygiad strategaeth gynhwysfawr ar gyfer lles ac iechyd anifeiliaid. O'i gwblhau, bydd y strategaeth hon yn darparu fframwaith cynhwysfawr fel y gall pawb sy'n gofalu am anifeiliaid neu'n eu ffermio wneud cyfraniad i les ac iechyd anifeiliaid. Y bwriad yw lleihau effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol afiechydon anifeiliaid a gwella lles anifeiliaid dof.

Cyflwynais fesurau ar wahân i wella lles anifeiliaid amaethyddol drwy ddeddfwriaeth a chodau ymarfer, rhaglenni i fynd i'r afael â'r ysfa, y diciâu mewn gwartheg, mewnforion personol o gynhyrchion cig a chynllunio wrth gefn rhag clefydau, a thrafodaf faterion lles ac iechyd anifeiliaid gyda rhanddeiliaid yn rheolaidd.

## Iawndal i Ffermwyr

**C15 David Davies:** Pa iawndal gaiff ei dalu i ffermwyr na fydd wedi cael taliadau'r cynllun taliadau arwynebedd tir âr, cynllun premiwm blynyddol defaid a'r cynllun premiwm arbennig eidion cyn 31 Ionawr 2003? (OAQ21857)

**Michael German:** Pe buasai ffermwyr yn derbyn eu cymorthdaliadau wedi cyfnodau talu priodol y Comisiwn Ewropeaidd, gallai iawndaliadau fod yn briodol o dan rai amgylchiadau, ond byddai'n rhaid ystyried pob achos ar ei haeddiant ei hun. Y dyddiadau perthnasol yw 31 Ionawr 2003 ar gyfer cynllun taliadau arwynebedd tir âr (a estynnir hyd 31 Mawrth 2003 am achosion o gnydau nad ydynt yn fwyd), 31 Mawrth 2003 ar gyfer cynllun premiwm blynyddol defaid a 30 Mehefin 2003 ar gyfer cynllun premiwm arbennig eidion.

## Cwestiynau i'r Trefnydd

### Aelodau o Grwpiau Gorchwyl a Gorffen

**C8 Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut y gall y cyhoedd ddod yn aelodau o grwpiau gorchwyl a gorffen? (OAQ21834)

**Y Trefnydd (Carwyn Jones):** Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb cynharach heddiw i OAQ21833.

### Ymwybyddiaeth o'r Cynulliad Cenedlaethol

**C9 Owen John Thomas:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i godi ymwybyddiaeth pobl o'r Cynulliad Cenedlaethol ledled Gymru? (OAQ21823)

**Carwyn Jones:** Gwaith i'r Llywydd a'i staff yw hybu ymwybyddiaeth am waith y Cynulliad yn gyffredinol. Lle bo Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y cwestiwn, mae Gweinidogion yn ymweld â phob cwr o Gymru yn rheolaidd i drafod eu gwaith ac i wrando ar bryderon pobl. Cynhaliodd y Cabinet ei sesiwn hawl i holi cyntaf yn Llandudno yng Ngorffennaf, a bydd yn cynnal yr ail ddigwyddiad o'r fath yn Hwlffordd heno. Yr oedd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru bresenoldeb amlwg hefyd yn sioeau a gwyliau Cymru yr haf hwn.

### Defnydd Amhriodol o Gyfrinachedd Masnachol

**C10 Alison Halford:** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i sicrhau nad yw'r cynnydd yn y defnydd o fentrau cyllid preifat i gyllido prosiectau wedi amharu ar ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i lywodraeth agored, o ran defnydd amhriodol o 'gyfrinachedd masnachol' i rwystro'r broses o graffu ar weithgareddau'r Llywodraeth? (OAQ21848)

**Carwyn Jones:** Asesir gwybodaeth sy'n gysylltiedig â mentrau cyllid preifat ar gyfer ei rhyddhau fesul achos yn unol â'r eithriadau a geir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Ymdrinnir â'r wybodaeth yn yr un modd ag unrhyw wybodaeth arall a ddelir gan y Cynulliad.

Yn Nhachwedd y llynedd, cyhoeddodd Adran yr Arglwydd Ganghellor god ymarfer ar weithredu swyddogaethau awdurdodau cyhoeddus o dan Rhan I Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r cyfarwyddyd hwn yn gosod yr arferion y dylai awdurdodau cyhoeddus eu harddel pan eu bod yn ymrin â cheisiadau am wybodaeth. Mae'n cynnwys adran ar ryddid gwybodaeth a chontractau sector cyhoeddus.

Yr ydym yn ystyried ein hymarferion yn sgîl y cyfarwyddyd hwn.

### Cyfle Cyfartal i Bleidleisio yn Etholiadau'r Cynulliad

**C11 Val Lloyd:** Pa ddulliau y bydd y Gweinidog yn eu defnyddio i sicrhau y bydd cyfle cyfartal i'r henoed a phobl anabl i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad sydd ar y gorwel? (OAQ21825)

**Carwyn Jones:** Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb i Janice Gregory heddiw (OAQ21820).

## Cau'r Bwlch rhwng Cyflogau Dynion a Menywod yng Nghymru

**C12 Christine Chapman:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch cau'r bwlch sy'n bodoli rhwng cyflogau dynion a menywod yng Nghymru? (OAQ21817)

**Carwyn Jones:** Lansiodd y Cynulliad, mewn partneriaeth â'r Comisiwn Cyfle Cyfartal a Chyngres Undebau Llafur Cymru, fenter i hybu cyflogau cyfartal. Nod yr ymgyrch un blwyddyn, 'Cau'r Bwlch Cyflogau', yw codi ymwybyddiaeth. Trefnwyd seminarau cyflog cyfartal i gyflogwyr mawr mewn addysg uwch, llywodraeth leol a sectorau'r GIG yng Nghymru.

## Canllawiau ar Fod yn Fwy Agored

**C13 David Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch unrhyw ganllawiau a roddwyd i is-adrannau yn eu hannog i fod yn fwy agored? (OAQ21859)

**Carwyn Jones:** Yn ogystal â'r fersiwn diwygiedig o'r Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth, rhoed cyfarwyddyd atodol i is-adrannau'r Cynulliad yn Awst 2001.

Mae canllaw byr ar ymdrin â cheisiadau am wybodaeth o dan y cod ymarfer ar fin cael ei gyhoeddi ynghyd â phrotocol ar gyfer ymdrin â cheisiadau cymhleth o dan y cod.

## Llywodraeth Agored

**C14 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog nodi beth yw hyd a lled llywodraeth agored yng Nghymru a dweud beth yw'r cyfyngiadau ar ofyn am wybodaeth? (OAQ21821)

**Carwyn Jones:** Gesyd y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth y Cynulliad y camau angenrheidiol er mwyn gofyn am wybodaeth a ddelir gan y Cynulliad yn glir; categorïau o wybodaeth a eithrir o'i rhyddhau a'r profion i'w gweithredu wrth asesu a ddylid rhyddhau gwybodaeth benodol.

Yn ogystal, mae Deddf Diogelu Data 1998 yn ymdrin â gwybodaeth bersonol. Mae Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 1992 yn ymdrin â gwybodaeth amgylcheddol ac mae gosodiadau penodol ar fod yn agored yn neddfwriaeth llywodraeth leol.

*Tynnwyd cwestiwn 15 (OAQ21819) yn ôl.*